

MESUR TLODI PLANT

YMGYNGHORIAD AR FESURAU GWELL O RAN TLODI PLANT

Mae targedau a mesurau Deddf Tlodi Plant 2010 yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan; byddai unrhyw fesurau gwell o ran tlodi plant hefyd yn berthnasol ledled y DU. Cydnabyddwn fod rhai o'r ysgogiadau polisi pwysig sydd eu hangen er mwyn lleihau tlodi yn nwylo'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn bartneriaid allweddol wrth fynd i'r afael ag achosion craidd tlodi ac mae pob un ohonynt wedi cyhoeddi strategaethau er mwyn cyflawni hyn. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig er mwyn lleihau tlodi plant ym mhob rhan o'r DU.

CRYNODEB

1. Mae'r Llywodraeth Glymblaid yn ymrwymedig i ddod â thlodi plant i ben. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, cydnabyddwn fod yn rhaid i ni ddeall sut beth ydyw realiti tlodi plant yn y DU. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn sut y gallwn adlewyrchu realiti tlodi plant yn y ffordd orau gan ddefnyddio mesur amlddimensiynol.
2. Mae'n amlwg bod yn rhaid i ni feddwl yn wahanol am dlodi plant. Yn ôl yr ystadegau tlodi plant diweddaraf, bu gostyngiad mawr yn nifer y plant sy'n byw o dan y trothwy tlodi cymharol. Fodd bynnag, roedd hyn yn bennaf yn sgil gostyngiad yn yr incwm canolrif yn genedlaethol a ddaeth â'r llinell tlodi i lawr; ni fu newid i dlodi absoliwt ac nid oedd amgylchiadau'r plant a 'symudodd allan' o dlodi wedi gwella dim.
3. Bydd mesur amlddimensiynol yn ein galluogi i ddwyn ynghyd ein gwybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu i dyfu i fyny mewn tlodi. Dylai'r mesur ddangos cyfanswm nifer y plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi plant yn y DU, difrifoldeb y tlodi hwnnw, bod yn fethodolegol gadarn a'i dderbyn yn gyffredinol gan y cyhoedd fel cynrychiolydd ystyrion o dlodi plant yn y DU.
4. Beth pa ddimensiynau i'w cynnwys mewn mesur amlddimensiynol o'r fath yn hanfodol i'w lwyddiant, ac mae'r cwestiwn hwn wrth wraidd yr ymgynghoriad hwn. Mae'r dimensiynau a awgrymir yn deillio o'r sgysiau â phlant, pobl ifanc ac elusennau, ochr yn ochr â dadansoddiad o dystiolaeth academaidd ynghylch ffactorau sy'n effeithio ar fywydau plant a chyfleoedd bywyd.
5. Mae'r ddogfen hon yn ystyried sawl dimensiwn posibl: incwm ac amddifadedd materol, peidio â gweithio, dyled sy'n amhosibl ei rheoli, tai gwael, lefel sgiliau rhianta, mynediad i addysg o safon, sefydlogrwydd teuluol ac iechyd rhieni. Rydym yn croesawu barn ar fanylion penodol pob dimensiwn yn ogystal ag a ddylem gynnwys dimensiynau eraill mewn mesur tlodi plant amlddimensiynol.
6. Yn ogystal â gofyn beth y dylid ei gynnwys mewn mesur tlodi plant amlddimensiynol, rydym yn gofyn cwestiynau technegol am sut y dylem adeiladu ar fesur o'r fath.
7. Mae gweledigaeth y Llywodraeth Glymblaid ar gyfer dyfodol y DU, fel y'i nodir yn y Strategaethau ar gyfer Tlodi Plant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Symudedd Cymdeithasol, yn un uchelgeisiol. Ni ddylai'r amgylchiadau y cewch eich geni iddynt bennu'r hyn y gallwch ei gyflawni. Bydd y Llywodraeth hon yn ymyrryd yn gynnar a lle y bo'r angen fwyaf i droi hyn yn realiti. Mae meithrin dealltwriaeth well o'r hyn mae tyfu i fyny mewn tlodi yn ei olygu yn rhan bwysig o'r weledigaeth honno.